

Cyngor Sir Ynys Môn • The Isle of Anglesey County Council

# Ynys Môn

The Isle of

# Anglesey

## Strategaeth Tirwedd Ynys Môn

### Diweddariad 2011



**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**DIWEDDARIAD AR YR ARDALOEDD CYMERIAD TIRWEDD**

**2011**

TACP  
10 Park Grove  
Caerdydd  
CF10 3BN

---

## Cynnwys

1.0	Rhagymadrodd.....	5
2.0	Ardaloedd Cymeriad Tirwedd.....	7
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 1: MYNYDD TWR.....	8
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 2: YNYS GYBI.....	11
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 3: Y LAS INWEN.....	15
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 4: ARFORDIR Y GOGLEDD-ORLLEWIN.....	19
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 5: GOGLEDD-ORLLEWIN YNYS MÔN.....	23
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 6: AMLWCH A'R CYFFINIAU.....	28
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 7: MYNYDD PARYS.....	32
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 8: CEFNWLAD BAE DULAS.....	36
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 9: Y TRAETH COCH.....	40
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 10: PENMON AC YNYS SEIRIOL.....	44
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 11: DWYRAIN AFON MENAI.....	48
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 12: DWYRAIN CANOL YNYS MÔN.....	53
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 13: GORLLEWIN AFON MENAI.....	58
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 14: NIWBWRCH.....	62
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 15: AFON CEFNI.....	66
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 16: ABERFFRAW.....	70
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 17: GORLLEWIN CANOL YNYS MÔN.....	74
	ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 18: CYFFINIAU MAES AWYR Y FALI.....	79

---




**Ardaloedd Cymunedol Tirlun (ACT)**

- 1 - Mynydd Twr
- 2 - Ynys Gybi
- 3 - Y Môr Mewndirol
- 4 - Arfordir y Gogledd Orllewin
- 5 - Gogledd Orllewin Yny Môn
- 6 - Amiwch ar Cyffiniau
- 7 - Mynydd Parys
- 8 - Cefnwlad Bae Dulas
- 9 - Y Traeth Coch
- 10 - Penmon ac Ynys Seiriol
- 11 - Dwyrain Afon Menai
- 12 - Dwyrain Canol Ynys Môn
- 13 - Gorllewin Afon Menai
- 14 - Niwbwrch
- 15 - Afon Cefni
- 16 - Aberffraw
- 17 - Gorllewin Canol Ynys Môn
- 18 - Cyffiniau Maes Awyr y Fall

**Landscape Character Areas (LCA)**

- 1 - Holyhead Mountain
- 2 - Holy Island
- 3 - Inland Sea
- 4 - North West Coast
- 5 - North West Anglesey
- 6 - Amiwch and Environs
- 7 - Parys Mountain
- 8 - Dulas Bay Hinterland
- 9 - Red Wharf Bay
- 10 - Penmon and Puffin Island
- 11 - Eastern Menai Strait
- 12 - East Central Anglesey
- 13 - Western Menai Strait
- 14 - Newborough
- 15 - Afon Cefni
- 16 - Aberffraw
- 17 - West Central Anglesey
- 18 - Valley Airfield Environs



**Diweddariad Strategaeth Tirlun  
Updated Landscape Strategy  
2011**

© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl.  
Cyngor Sir Ynys Môn. Rhif trwydded  
100023412.  
© Crown copyright. All rights reserved  
Site of Aigiau Cymru Council.  
Licence No. 100023412.



## DIWEDDARIAD AR ARDALOEDD CYMERIAD TIRWEDD YNYS MÔN

### 1.0 Rhagymadrodd

- 1.1 Penodwyd Ymgynghorwyr TACP gan Gyngor Ynys Môn ym mis Ebrill 2010 i gynnal adolygiad o'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a nodwyd yn astudiaeth asesu tirwedd wreiddiol LANDMAP ar gyfer Ynys Môn a gyhoeddwyd yn 1999.
  - 1.2 Cynhaliwyd yr astudiaeth mewn ymateb i newidiadau ym methodoleg LANDMAP sydd wedi digwydd yn sgil cymhwyso'r broses i Gymru gyfan. O ganlyniad, yn 2003 cyflwynodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru raglen sicrhau ansawdd i wirio astudiaethau LANDMAP. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i feysydd pwnc agweddau LANDMAP a'r lefelau gwerthuso.
  - 1.3 Mae methodoleg LANDMAP yn darparu cyfoeth o ddata am y pynciau agwedd sy'n cael eu gwerthuso. Mae'r rhain yn darparu manylion am natur a phwysigrwydd haenau unigol yr agweddau. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig deall sut mae'r pynciau agwedd yn cyfuno i greu ardaloedd tirwedd penodol sydd ag 'ymdeimlad pendant o le' neu 'hunaniaeth leol'. Y rhain sy'n ffurfio'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd unigol. Fe'u diffinnir drwy osod gwybodaeth am wahanol haenau'r pynciau agwedd ar ben ei gilydd a diffinio'r ardaloedd lle mae'r cyfuniad agweddau yr un fath yn fras a/neu fod iddynt nodweddion arbennig ac ymdeimlad cyson o hunaniaeth. Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer disgrifio, rheoli a llunio polisi.
  - 1.4 Mae'n bwysig cydnabod mai anaml y mae'r ffiniau rhwng Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn rhai cwbl bendant. Maent wedi'u seilio i bob diben ar y farn orau ynglŷn â newid graddol, ond newid y gellir ei ddirnad, mewn cymeriad. Hefyd, bydd y nifer o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a nodir, a'u maint, yn adlewyrchu nodweddion neilltuol yr ardal dan sylw. Ynys Môn yw'r fwyaf o ynysoedd Cymru, yn ymledu dros rhyw 720 o gilometrau sgwâr ac yn cael ei gwahanu oddi wrth y tir mawr gan y Fenai. Y prif drefi ar yr ynys yw Llangefni, Caerdybi, Amlwch, Benllech, Porthaethwy a Llanfair Pwllgwyngyll. Topograffi hamddenol sydd i'r ynys yn gyffredinol – tir bryniog wedi'i fritho yma ac acw gan frigiadau creigiog, caletach fel Ynys Gybi, Mynydd Parys, Mynydd Bodafon a Mynydd Llwydiarth. Mae'r tiffurf yn disgyn o'r dwyrain tua'r gorllewin, gyda nifer o ardaloedd o dir isel ar hyd yr arfordir gorllewinol yn cynnwys Aberffraw, Cors Malltraeth a Chwningar Niwbwrch. Caiff y patrwm tiffurf hwn ei adlewyrchu yn aliniad gogledd-ddwyreiniol – de-orllewinol y cyrsiau dŵr.
  - 1.5 Mae'r cymeriad cyffredinol hwn yn wahanol iawn i'r ddaear waelodol gymhleth ac effeithiau prosesau geomorffolegol fel rhewlifiant. Mae'r ynys yn cynnwys rhai o'r creigiau hynaf ledled Cymru a Phrydain, ac mae'r rhain yn amlygu eu hunain yn glir yn nhopograffi'r ynys. Nid oes yma orchudd coed eang yn gyffredinol, er bod coetiroedd hynafol lled-naturiol i'w canfod ar hyd y Fenai, ac mae planhigfeydd eang i'w canfod o amgylch Mynydd Llwydiarth a Chwningar Niwbwrch. Mae'r ynys yn dangos hanes diwylliannol cyfoethog gyda thystiolaeth o weithgarwch dyn yn ymestyn dros rhyw 8000 o flynyddoedd. Mae yma dros 200 o Henebion Cofrestredig yn amrywio o
-

siambrau claddu o'r Oes Efydd i nodweddion canoloesol diweddarach. Ymysg y nodweddion tirwedd mwy diweddar mae tirweddau wedi'u cynllunio ar stadau mawrion fel Plas Newydd, llwybrau trafniadaeth o bwys, a nodweddion diwydiannol yn cynnwys ynni niwclear a ffermydd gwynt. Caiff yr amrywiaeth cyfoethog ac ansawdd y dirwedd arfordirol eu hadlewyrchu yn ei dynodiad fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae'r dynodiad hwn yn sail i unrhyw ganllawiau rheoli neu ddylunio ar gyfer ardal yr AHNE.

- 1.6** O gofio mai ynys yw Môn, cyfeiriwyd hefyd at Asesiad Morweddau Cymru, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad yn 2009. Mae hwn yn ystyried unedau morweddol a ddisgrifir fel unrhyw ddarn o fôr, morlin neu dir y bernir bod ei gymeriad yn ffrwyth arweithiau a chroestoriadau ar dir a môr gan ffactorau naturiol a/neu ddynol. Arweiniodd hyn at ddynodi pum uned forweddol genedlaethol a hanner cant o unedau morweddol rhanbarthol ar hyd arfordir Cymru. Nodweddir pob uned ranbarthol gan deipoleg sylfaenol sydd wedi'i seilio ar y môr, daeareg arwyneb, uchder y tir a'r defnydd ohono a'i sensitifwyd i newid.

Mae Ynys Môn yn gorwedd o fewn unedau morweddol cenedlaethol Gogledd Cymru a Bae Caernarfon ac mae'n cynnwys 9 uned ranbarthol fel a ganlyn:-

- 5 - Pen y Gogarth i Ynys Seiriol
- 6 - Ynys Seiriol i Drwyn Eilian
- 7 - Trwyn Eilian i Drwyn y Gader
- 8 - Trwyn y Gader i Ynys Arw, Mynydd Twr
- 9 - Ynys Arw, Mynydd Twr i Benrhyn Mawr
- 10 - Culfor Ynys Gybi
- 11 - Penrhyn Mawr i Ben y Parc/Bae Malltraeth
- 12 - Afon Menai
- 13 - Bae Malltraeth i Drefor

Fe welir o'r rhestr fod a wnelo'r unedau rhanbarthol yn bennaf ag ardaloedd o arfordir rhwng pentiroedd amlwg. Mae'r rhain wedi cael eu croesgyfeirio â data LANDMAP, ond mae'n amlwg eu bod yn cynnwys mwy nag un ardal cymeriad tirwedd fel y'u diffinnir yn yr astudiaeth hon. O ganlyniad, cyfeirir at uned forweddol berthnasol pob Ardal Cymeriad Tirwedd fel y caiff ei disgrifio. Mae manylion pob uned forweddol ranbarthol i'w gweld ar wefan y Cyngor Cefn Gwlad ([ccgc.gov.uk](http://ccgc.gov.uk) – tirlun a bywyd gwyllt, Asesiad Morweddau Cymru). Maent yn darparu manylion am nodweddion ffisegol, defnydd, priodweddau gweledol a synhwyrdd, cysylltiadau diwylliannol a grymoedd o blaid newid. Mae llawer o hyn yn ategu'r materion allweddol a nodwyd ar gyfer pob Ardal Cadwraeth Tirwedd a sut y gellir ymdrin â nhw.

- 1.7** Yn sgil paratoi papur adolygu ym mis Mai 2010, cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn i drafod ffordd briodol ymlaen. O bwys neilltuol roedd ymgorffori'r data LANDMAP diweddaedig a nodi materion dylunio a rheoli allweddol i bob Ardal Cymeriad Tirwedd. Canlyniad yr ymarferiad hwn oedd cytundeb i gynyddu'r nifer o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd o 15 i 18. Caiff y rhain eu dangos yn Ffigur 2.0 ac fe'u disgrifir yn fanylach yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn.

## 2.0 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd

2.1 Mae adran ddilynol yr adroddiad yn cynnwys yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd diweddaredig. Ym mhob achos mae'r elfennau cymeriad tirwedd sy'n diffinio pob ardal yn cael eu nodi, ynghyd â'r materion tirwedd allweddol sy'n deillio o ymarferiad LANDMAP. Ategir hyn ymhellach drwy gyfeirio at feysydd agweddau perthnasol LANDMAP fesul pwnc sy'n rhan o'r Ardal Cymeriad Tirwedd.

2.2 Mae'r matrices gwerthuso yn rhoi'r lefelau gwerthuso i bob un o'r pum maes agweddau. Mae'r is-feini prawf i bob haen o'r meysydd agweddau fel a ganlyn:

Tirweddau Daearegol	1 – Gwerth Addysgol/Ymchwil 2 – Gwerth Hanesyddol 3 – Eifen Brin/Unigryw 4 – Enghraifft Glasurol
Cynefinoedd Tirwedd	1 – Cynefinoedd Blaenoriaeth 2 – Arwyddocâd 3 – Cyfle 4 – Cyfraddau Dirywio 5 – Bygythiad 6 – Darnio 7 – Gwerthuso Cynefinoedd 8 – Pwysigrwydd Rhywogaethau Allweddol
Gweledol a Synhwyrdd	1 – Ansawdd Golygfeydd 2 – Cyfanrwydd 3 – Cymeriad 4 – Eifen Brin
Tirweddau Hanesyddol	1 – Eifen brin 2 – Goroesiad/Cadwraeth 3 – Eifen Brin 4 – Dogfennaeth 5 – Gwerth Grŵp 6 – Goroesiad 7 – Yn Agored i Niwed 8 – Amrywiaeth 9 – Potensial

Defnyddiwyd cod lliw ar bob un o'r tablau agwedd fel y nodir isod:

- Coch – Eithriadol
- Gwyrdd – Uchel
- Glas – Cymedrol
- Melyn – Isel
- Gwyn – Heb ei asesu

Mae diffiniadau manylach o bob un o'r meini prawf ar gael yn llawlyfr LANDMAP neu drwy wefan LANDMAP – <http://landmap.ccw.gov.uk>

---



**ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 1: MYNYDD TWR**







Bae Gogarth, Mynydd Twr



“Abraham’s Bosom” ac Ynys Lawd

## Disgrifiad

Mynydd Twr yw'r man uchaf ar Ynys Môn, yn codi i 220 metr uwchlaw'r seilnod ordnans. Mae iddo broffil crwn amlwg sy'n adlewyrchu'r ddaearog waelodol o greigiau metamorffig o'r oes Gambriadd ac mae'n cynnwys Ynys Lawd ac Ynys Arw ar ei forlin gogleddol creigiog. Y dirwedd a geir o hyn yw rhostir creigiog agored sy'n gyforiog o ddi-ddordeb hanesyddol/diwylliannol a bywyd gwyllt. Mae'n cynnwys Ardal Gadwraeth Mynydd Twr a Pharc Gwledig y Morglawdd, safle hen chwarel, a phatrwm anheddu sy'n adlewyrchu'r chwarela a ddigwyddai yma yn y gorffennol. Tirwedd unig, gwyllt, heb ei ddofi, gyda defnydd tir penodol a golygfeydd hardd. Mae ei werthoedd hanesyddol a diwylliannol yn bwysig hefyd. Mae'r dystiolaeth anheddu yn rhychwantu o gyfnodau cynhanes hyd at yr ymyrryd ehangach ar dir comin a chwarela. Yn ddiwylliannol mae'n nodwedd eiconig, yn enwedig i'r lluo o fewnfwydwr o Iwerddon, gan mai dyma'r olwg gyntaf a gaent o'r DU. Adlewyrchir pwysigrwydd yr Ardal Cadwraeth Tirwedd gan yr ystod o ddynodiadau statudol – Safle o Ddi-ddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Heneb Gofrestredig, RIGS (Safle Ddaearogol a Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol) a geir ynddi. Croesgyfeirir ag Uned Forweddol Ranbarthol 8.

## Materion Allweddol

### Rheoli Cynefinoedd a Rheolaeth Ddaearogol

Mae nifer o gynefinoedd a nodweddion daearogol pwysig yn yr ardal hon, yn cynnwys nodweddion uwchdir, rhostir, brigiadau creigiog a nodweddion arbennig. Dylai unrhyw gynigion datblygu neu reoli sicrhau:-

- Bod sylw'n cael ei roi i effeithiau uniongyrchol a chanlyniadol, yn enwedig ar ardaloedd cynefin.
- Bod y potensial i ddatblygu neu wella cynefinoedd yn cael ei ystyried.
- Bod nodweddion daearogol, llawer ohonynt o werth cenedlaethol/rhyngwladol, yn cael eu hamddiffyn.
- Bod sylw'n cael ei roi i Gynllun Rheoli'r AHNE.

### Tirweddau Hanesyddol

Mae'r ardal yn cynnwys olion chwarela nid yn unig ar ffurf chwareli segur ond hefyd drwy batrwm anheddu pendant. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw gynigion i ddatblygu neu ymestyn Parc Gwledig y Morglawdd i sicrhau eu bod yn parhau'r nodweddion hyn. Un ystyriaeth bwysig fydd effaith cynnydd yn y nifer o ymwelwyr, â'r Parc Gwledig a hefyd â safle'r RSPB ar Ynys Lawd. Dylid hefyd ystyried Canllawiau Cynllunio Atodol Ardal Gadwraeth Mynydd Twr.

Landmap Aspect Area Matrix - LCA 1 Holyhead Mountain

Aspect Area	UID	AreaName	1	2	3	4	5	6	7	8	9	Overall Evaluation
Geological Landscapes	YNSMNGLO81	Cors	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO78	Holyhead Mountain	H	H	M	H						High
	YNSMNGLO79	Tyddyn	M	M	M	M						Moderate
	YNSMNGLO80	South Stack	H	M	M	M						High
	YNSMNGLO92	South Stack-Holyhead coast	O	O	O	O						Outstanding
Landscape Habitats	YNSMNLH035	Farmland N.W. of Holyhead	L	L	M	U	L	U	L	L		Low
	YNSMNLH047	Farmland S.W. of Holyhead	L	L	M	U	L	U	L	M		Low
	YNSMNLH054	Holyhead Mountain heath	H	H	L	U	H	H	O	O		Outstanding
	YNSMNLH117	Cors Tre Wilmot	H	H	L	U	H	L	H	M		Moderate
	YNSMNLH126	Holy Island - Clifed Coast	O	O	L	U	U	H	O	O		Outstanding
Visual & Sensory	YNSMNVSO01	Holyhead Mountain	O	H	O	O						Outstanding
	YNSMNVSO07	Holy Island	H	M	H	M						High
	YNSMNVSO54	Holy Island coast	H	H	H	M						High
	YNSMNVSO55	South Stack/North Stack	U	O	H	O						Outstanding
Historic Landscapes	YNSMNLH030	Holyhead	O	O	M	O	H					Outstanding
	YNSMNLH031	Holy Island/South Stack	O	O	H	O	M					Outstanding
Cultural Landscapes	YNSMNCLO01		U	O	O	H	O	H	H	H	M	Outstanding
	YNSMNCLO02	Holyhead Mountain	O	O	O	U	O	H	L	H	L	Outstanding
	YNSMNCLO03	Breakwater, Breakwater Country Park	M	O	O	H	H	H	U	M	M	Outstanding
	YNSMNCLO19	Northern Coast	H	H	H	U	H	H	H	M	M	Outstanding



**ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 2: YNYS GYBI**







Caergybi



Bar

Trearddur

## Disgrifiad

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Ynys Gybi ac mae'n cynnwys y prif anheddiad ar yr ynys, Caergybi. Mae'n uned ffisegol ar ei phen ei hun, wedi'i gwahanu oddi wrth y brif ynys ond yn cael ei chysylltu â hi gan sarn (Cob Caergybi) a Phont Rhyd y Bont. Mae'n rhannu'n ddwy is-uned bendant, wedi'u gwahanu gan goridor datblygu Caergybi-Trearddur ar hyd ffordd y B4545. I'r gogledd o'r coridor hwn, mae'r dirwedd yn dir cymharol isel ond oherwydd y ddaear waelodol mae iddo nifer o frigiadau creigiog. Ceir caeau bach yn yr ardal, fel arfer â ffiniau carreg a gwrychoedd eithin. Mae ôl y gwynt i'w weld yn glir ar y coed pîn sy'n tyfu yma. I'r de o'r ffordd, eto ceir ardaloedd garw, creigiog. Fodd bynnag, o amgylch Rhoscolyn mae ardal o dir mwy tonnog, lle mae gorchudd rhewglai yn fwy cyffredin, gyda brigiadau creigiog hwnt ac yma ac ardaloedd o lifwaddod arfordirol a morydol. Ym Mhenrhos mae hen stad teulu Stanley sydd erbyn hyn yn cael ei rheoli fel Parc Gwledig.

Mae nifer o gynefinoedd pwysig – rhostiroedd sych, cynefinoedd arfordirol a rhynglanwol – yn aml o fewn matrices mwy o laswelltir wedi'i wella. Fodd bynnag, mae llawer o'r 'ynyoedd' hyn sy'n werthfawr fel cynefinoedd wedi'u dynodi'n SDdGA. Caergybi a Threarddur sy'n ffurfio'r brif echel anheddu. Mae Caergybi, a godwyd ar weddillion tref Rufeinig, wedi dod yn borthladd o bwys gyda diwydiannau yn gysylltiedig â hynny. Mae hyn wedi cynyddu yn sgil dyfodiad yr A55 yn y blynyddoedd diwethaf. Mae rhan o'r dref wedi'i dynodi'n Ardal Gadwraeth. Mae Trearddur yn enghraifft dda o'r dylanwad a all ddod i ardal yn sgil twristiaeth, gan newid ei chymeriad. Mae'r gwestyau, yr ail gartrefi, y safleoedd gwersylla a charafanio ynghyd â'r cwrs golff i gyd yn cyfrannu at hyn. Er gwaethaf hynny, mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd yn cynrychioli cymeriad tirwedd cwbl benodol – gwledig, gwyllt, agored, arfordirol – a'r prif beth sy'n amharu arni yw'r sŵn awyrennau o faes awyr y Llu Awyr yn y Fali gerllaw. Croesgyfeirier ag Unedau Morweddol Ranbarthol 8, 9 a 10.

## Materion Allweddol

### Ymylon Aneddiadau

Dylai datblygu o amgylch ymylon aneddiadau:-

- Fod ar ffurf sy'n adlewyrchu cymeriad a phriodweddau pob anheddiad.
- Gael ei ystyried yn nhermau'r effaith gronns ar y dirwedd yn hytrach na dim ond ar y safle ei hun.
- Defnyddio'r tiffurf a phatrymau llystyfiant i helpu i liniaru unrhyw effeithiau.
- Peidio â phennu atebion safonol; defnyddio nodweddion lleol cynhenid.
- Rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Cynllunio Atodol Ardal Gadwraeth Canol Caergybi ac Ardal Gadwraeth Traeth Caergybi.

### Tirweddau Arfordirol

O ystyried y pwysau am ddatblygiadau adloniant a thwristiaeth, dylid rhoi sylw i:-

- Effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar dirweddau arfordirol.
- Yr effaith weledol ar argraffiadau pobl o'r arfordir, ei gymeriad a'i briodweddau.
- Rhoi sylw i Gynllun Rheoli'r AHNE.


### Rheoli Cynefinoedd

Mae llawer o'r cynefinoedd pwysig yn yr ardal yn cael eu gwarchod gan ddynodiadau statudol sy'n darparu rheolaeth o ran datblygu. Yn wyneb hynny, mae'n bwysig sicrhau yr achubir ar gyfleoedd i wella'r ystod cynefinoedd ehangach wrth ystyried cynlluniau datblygu neu reoli.



Landmap Aspect Area Matrix - LCA 2 Holy Island												
Aspect Area	UID	AreaName	1	2	3	4	5	6	7	8	9	Overall Evaluation
Geological Landscapes	YNSMNGLO66	Tywyn Trwan Common	L	L	L	L						Low
	YNSMNGLO88	Roscolyn	M	L	M	L						Moderate
	YNSMNGLO84	Trearddur (Bay)	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO85	Trearddur (S)	H	M	M	M						High
	YNSMNGLO86	Cae'r Sais	O	H	O	H						Outstanding
	YNSMNGLO87	Gwynfryn	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO90	Four Mile Bridge	M	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO91	Trearddur coast	O	H	H	H						Outstanding
	YNSMNGLO99	Rhoscolyn coast	O	O	O	O						Outstanding
	YNSMNGLO81	Cors	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO77	Holyhead	L	L	L	L						Low
	YNSMNGLO78	Holyhead Mountain	H	H	M	H						High
	YNSMNGLO79	Tyddyn	M	M	M	M						Moderate
	YNSMNGLO80	South Stack	H	M	M	M						High
	YNSMNGLO82	Ty-mawr	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO83	Trearddur (N)	M	L	M	M						Moderate
YNSMNGLO89	Penrhos	L	L	L	L						Moderate	
YNSMNGLO92	South Stack-Holyhead coast	O	O	O	O						Outstanding	
YNSMNGLO93	Penrhos coast	H	M	H	H						High	
Landscape Habitats	YNSMNLH002	Tre Wilmot	H	H	L	U	H	H	O	H		Outstanding
	YNSMNLH003	Heath S. of Penrhosfelw	H	H	L	U	H	H	O	O		Outstanding
	YNSMNLH017	Coastal Heath S. of Penrhosfelw	O	H	L	U	H	H	O	H		Outstanding
	YNSMNLH023	Rhostir Ty'n Mynydd	M	M	U	U	M	L	M	M		Moderate
	YNSMNLH024	RAF Valley Airfields	H	H	M	U	U	H	H	M		Moderate
	YNSMNLH035	Farmland N.W. of Holyhead	L	L	M	U	L	U	L	L		Low
	YNSMNLH047	Farmland S.W. of Holyhead	L	L	M	U	L	U	L	M		Low
	YNSMNLH054	Holyhead Mountain heath	H	H	L	U	H	H	O	O		Outstanding
	YNSMNLH062	W. of Holyhead	U	U	M	U	U	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH063	Inland Sea	H	O	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH082	Holyhead Golfcourse	L	M	M	U	U	L	M	M		Moderate
	YNSMNLH102	Holyhead Breakwater and adjacent land	M	M	M	U	M	M	M	L		Moderate
	YNSMNLH105	Farmland - Trearddur to Holyhead	L	L	M	U	L	U	L	L		Low
	YNSMNLH114	Coast - Porth Corgwl to Cymaran Bay	O	H	L	U	M	H	O	H		Outstanding
	YNSMNLH117	Cors Tre Wilmot	H	H	L	U	H	L	H	M		Moderate
	YNSMNLH122	Holyhead	L	L	M	U	U	L	L	L		Low
	YNSMNLH123	Trearddur	L	L	M	U	U	L	L	M		Low
	YNSMNLH124	Farmland S. of Holyhead	M	H	M	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH125	Beddmanarch Bay	H	H	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH126	Holy Island - Clifed Coast	O	O	L	U	U	H	O	O		Outstanding
	YNSMNLH132	Rhoscolyn Area	M	M	M	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH143	Coedydd Ysad Bodior	U	M	U	U	M	M	M	L		Moderate
	Visual & Sensory	YNSMNVSO01	Holyhead Mountain	O	H	O	O					
YNSMNVSO07		Holy Island	H	M	H	M						High
YNSMNVSO30		Holy Island straits	H	H	H	O						High
YNSMNVSO32		Penrhos Beach	H	M	H	M						High
YNSMNVSO54		Holy Island coast	H	H	H	M						High
YNSMNVSO58		Holyhead	M	L	H	M						Moderate
YNSMNVSO64		Trearddur	L	L	H	M						Moderate
YNSMNVSO83		Holyhead Harbour	M	M	H	O						High
YNSMNVSO84		Aluminium Works	L	L	H	H						Low
YNSMNVSO85		Penrhos Coastal Park	M	M	M	M						Moderate
YNSMNVSO91	A55 corridor	L	L	M	L						Low	
Historic Landscapes	YNSMNLH026	RAF Valley	H	H	H	O	O					Outstanding
	YNSMNLH027	Rhoscolyn	H	H	H	H	M					High
	YNSMNLH028	Trearddur Bay area	H	H	M	M	M					High
	YNSMNLH029	Penrhos	L	M	L	M	M					Moderate
	YNSMNLH030	Holyhead	O	O	M	O	H					Outstanding
	YNSMNLH031	Holy Island/South Stack	O	O	H	O	M					Outstanding
YNSMNLH073	Penrhos Park	M	L	L	M	H					Moderate	
Cultural Landscapes	YNSMNL001		U	O	O	H	O	H	H	H	M	Outstanding
	YNSMNL002	Holyhead Mountain	O	O	O	U	O	H	L	H	L	Outstanding
	YNSMNL003	Breakwater, Breakwater Country Park	M	O	O	H	H	H	U	M	M	Outstanding
	YNSMNL004	Holyhead harbour	H	O	O	H	O	O	H	H	U	Outstanding
	YNSMNL005	Anglesey Aluminum	H	M	H	H	M	L	H	L	L	Outstanding
	YNSMNL006	A5 Road	O	O	O	O	O	O	L	M	M	Outstanding
	YNSMNL008	A55 road	H	M	L	L	M	L	L	H	M	High
	YNSMNL009	Railway - Chester to Holyhead	H	O	O	O	O	M	H	H	O	Outstanding
	YNSMNL011	Rhosneigr	U	M	M	U	H	M	U	M	H	High
	YNSMNL019	Northern Coast	H	H	H	U	H	H	H	M	M	Outstanding
	YNSMNL031	Sustrans Cycle Route	O	M	H	L	M	L	L	M	O	High
	YNSMNL032	Trearddur Bay	H	H	M	U	H	H	M	M	M	High
	YNSMNL034	South west coast	U	H	O	U	H	O	U	H	H	Outstanding

**ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 3: Y LAS INWEN**







Bae Cymyran



Y Las Inwen o Phont Rhyd y Bont

---



### **Disgrifiad**

Mae'r ardal yn cynnwys tair is-uned tirwedd. Mae'r Las Inwen, sy'n gwahanu Ynys Gybi oddi wrth Ynys Môn, yn cyfeirio at ardal eang o Gulfor Ynys Gybi sy'n cael ei gronni gan Gob Caergybi (a godwyd gan Telford i gario ffordd yr A5) i'r gogledd ac yn ymestyn hyd at Bont Rhyd y Bont. Mae cerhyntau'r llanw yn dylanwadu ar yr ardal hon gan ei gwneud yn boblogaidd gyda'r rhai sy'n mwynhau chwaraeon dŵr a defnyddio cychod. Yn fwy diweddar mae'r cob wedi cael ei ledu er mwyn iddo gario, yn gyntaf, y rheilffordd ac erbyn hyn ffordd yr A55 i Gaergybi. Mae hyn wedi golygu cynnydd mewn sŵn a symud yn yr ardal.

Mae rhan ddeheuol y culfor yn fwy troellog ac yn gul mewn mannau, gan roi cymeriad morydol pendant ar y distyll gyda banciau tywod wedi'u dinoethi. I'r gogledd o'r cob mae'r culfor yn agor allan i gynnwys Traeth y Gribin sy'n rhan o flaendraeth tywod mawr gyda rhai brigiadau creigiog ac mae'n cynnwys sianel Afon Alaw ar y distyll.

Mewn llawer o ffyrdd mae tirwedd yr Ardal Cymeriad Tirwedd yn rhan o'r ardaloedd cyfagos ond mae'n nodwedd mor gryf yn lleol nes haeddu bod yn Ardal Cymeriad Tirwedd ar ei phen ei hun. Croesgyfeirier ag Uned Forweddol Ranbarthol 10.

### **Materion Allweddol**

Mae a wnelo'r prif ystyriaethau yn yr Ardal Cymeriad Tirwedd hon ag effeithiau cynigion datblygu, twristiaeth, hamdden a rheoli ar yr amrywiaeth tirweddau a chynefinoedd arfordirol. Dylid cyfeirio'n arbennig at y priodweddau gwahanol a geir ledled yr Ardal Cymeriad Tirwedd yn benodol o ran y Môr Mewndirol, y foryd agored lydan i'r gogledd o Gob Caergybi a'r arfordir mwy troellog i'r de ohono. Hefyd, mai angen ei hystyried yn fanwl mewn perthynas ag unrhyw gynigion mewn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd cyffiniol, o gofio priodweddau arbennig ardal y Môr Mewndirol.

- Rhoi sylw i Gynllun Rheoli'r AHNE.

Landmap Aspect Area Matrix - LCA 3 Inland Sea												
Aspect Area	UID	AreaName	1	2	3	4	5	6	7	8	9	Overall Evaluation
Geological Landscapes	YNSMNGLO02	Llanfechel	H	M	H	H						High
	YNSMNGLO13	Ty-hen	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO14	Penrhyn	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNGLO76	Alaw estuary	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNGLO95	Porth Delysn-Porth Swlan coast	H	M	H	H						High
	YNSMNGLO19	Bodedern	M	M	M	M						Moderate
	YNSMNGLO66	Tywyn Trwan Common	L	L	L	L						Low
	YNSMNGLO72	Llanfairyneubwll	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO75	Valley	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO94	Traeth y Gribin	H	M	H	M						High
	YNSMNGLO111	Rhosneigr coast	H	H	M	M						High
	YNSMNGLO88	Roscolyn	M	L	M	L						Moderate
	YNSMNGLO73	Bryn-y-fryd	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO84	Trearddur (Bay)	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO85	Trearddur (S)	H	M	M	M						High
	YNSMNGLO87	Gwynfryn	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO90	Four Mile Bridge	M	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO83	Trearddur (N)	M	L	M	M						Moderate
	YNSMNGLO89	Penrhos	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO93	Penrhos coast	H	M	H	H						High
Landscape Habitats	YNSMNLH006	Farmland - West Anglesey	L	L	M	U	M	U	L	M		Moderate
	YNSMNLH023	Rhostir Ty'n Mynydd	M	M	U	U	M	L	M	M		Moderate
	YNSMNLH024	RAF Valley Airfields	H	H	M	U	U	H	H	M		Moderate
	YNSMNLH029	Afon Alaw Saltmarsh	H	H	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH055	Cymaran Bay	H	O	L	U	O	H	H	O		High
	YNSMNLH062	W. of Holyhead	U	U	M	U	U	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH063	Inland Sea	H	O	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH076	Coast Porth Penrhyn Mawr to Church Bay	H	H	L	U	H	H	M	M		High
	YNSMNLH090	Valley	L	L	M	U	U	L	L	L		Low
	YNSMNLH103	Farmland between Inland Sea and A5	L	L	M	U	M	M	L	M		Moderate
	YNSMNLH105	Farmland - Trearddur to Holyhead	L	L	M	U	L	U	L	L		Low
	YNSMNLH114	Coast - Porth Corgwl to Cymaran Bay	O	H	L	U	M	H	O	H		Outstanding
	YNSMNLH122	Holyhead	L	L	M	U	U	L	L	L		Low
	YNSMNLH123	Trearddur	L	L	M	U	U	L	L	M		Low
	YNSMNLH125	Beddmanarch Bay	H	H	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH132	Rhoscolyn Area	M	M	M	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH143	Coedydd Ysad Bodior	U	M	U	U	M	M	M	L		Moderate
	YNSMNV007	Holy Island	H	M	H	M						High
	YNSMNV008	North-west drumlins	M	H	M	L						Moderate
	YNSMNV020	Caergeiliog craggy lowlands	M	M	M	L						Moderate
YNSMNV030	Holy Island straits	H	H	H	O						High	
YNSMNV031	Inland Sea/Stanley Embankment	H	H	H	H						High	
YNSMNV032	Penrhos Beach	H	M	H	M						High	
YNSMNV033	Alaw Estuary	M	O	M	H						High	
YNSMNV034	Northwest coast	H	H	M	M						High	
YNSMNV064	Trearddur	L	L	H	M						Moderate	
YNSMNV065	Valley & Newlands	L	L	L	L						Low	
YNSMNV084	Aluminium Works	L	L	H	H						Low	
YNSMNV085	Penrhos Coastal Park	M	M	M	M						Moderate	
YNSMNV091	A55 corridor	L	L	M	L						Low	
Historic Landscapes	YNSMNLH006	A5 corridor and associated villages	O	O	H	O	H					Outstanding
	YNSMNLH016	Fieldscape, central eastern Mon	O	O	M	O	H					Outstanding
	YNSMNLH026	RAF Valley	H	H	H	O	O					Outstanding
	YNSMNLH027	Rhoscolyn	H	H	H	H	M					High
	YNSMNLH028	Trearddur Bay area	L	M	L	M	M					Moderate
	YNSMNLH029	Penrhos	L	M	L	M	M					Moderate
	YNSMNLH073	Penrhos Park	M	L	L	M	H					Moderate
	YNSMNLH079	Internal Southern Anglesey	O	O	H	O	H					Outstanding
Cultural Landscapes	YNSMNCL001		U	O	O	H	O	H	H	H	M	Outstanding
	YNSMNCL005	Anglesey Aluminum	H	M	H	H	M	L	H	L	L	Outstanding
	YNSMNCL006	A5 Road	O	O	O	O	O	O	L	M	M	Outstanding
	YNSMNCL007	A5 Road Villages	H	M	M	U	H	H	M	M	M	Moderate
	YNSMNCL008	A55 road	H	M	L	L	M	L	L	H	M	High
	YNSMNCL009	Railway - Chester to Holyhead	H	O	O	O	O	M	H	H	O	Outstanding
	YNSMNCL011	Rhosneigr	U	M	M	U	H	M	U	M	H	High
	YNSMNCL019	Northern Coast	H	H	H	U	H	H	H	M	M	Outstanding
	YNSMNCL031	Sustrans Cycle Route	O	M	H	L	M	L	L	M	O	High
	YNSMNCL032	Trearddur Bay	H	H	M	U	H	H	M	M	M	High
	YNSMNCL034	South west coast	U	H	O	U	H	O	U	H	H	Outstanding

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 4: ARFORDIR Y GOGLEDD-ORLLEWIN







Porthwen



Dinas Gynfor

## Disgrifiad

Ardal Cadwraeth Tirwedd gymharol gul sy'n dilyn arfordir Ynys Môn o foryd afon Alaw yn y Fali hyd at ardal Porth Llechog. Ar ochr y tir mae'r ffin yn dilyn ffin yr ardal agwedd ddaearegol, gan adlewyrchu natur greigiog arbennig y rhan hon o'r arfordir. Er y bydd hyn yn anodd ei ddiffinio'n gywir ar y ddaear, mae'n cydnabod yr aneglurder a geir yn ffiniau Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn aml ac yn adlewyrchu hanfod a chymeriad yr arfordir yn briodol. Serch hynny, mae ffin wedi cael ei phennu sy'n dilyn llwybrau, lonydd a ffyrdd diddosbarth.

O foryd afon Alaw hyd at Drwyn y Gader, mae'r arfordir, sy'n wynebu'r gorllewin, yn un o faeau tywod a childraethau gyda phentiroedd a chlogwyni creigiog rhyngddynt yma ac acw, yn enwedig o Borth Trefadog tua'r gogledd. Mae llawer o'r ddaeareg waelodol wedi'i chreu gan greigiau metamorffig cyn-Gambriaidd a Chambriaidd. O Drwyn y Gader, sy'n codi bron 50 metr uwchlaw'r seilnod ordnans, tua'r dwyrain mae darn o arfordir ar batrwm mwy cymhleth. Mae'n greigiog gan mwyaf, ac ym Mae Cemaes y ceir yr unig draeth tywod. Mae cymeriad Bae Cemlyn yn wahanol, gydag lagŵn o ddŵr lled hallt yn cael ei ddal gan draeth graean bras siâp cilgant.

Mae llawer o'r cynefin yn arfordirol ei gymeriad – yn rhynglanwol, arfordirol, arforol ac ar lethr clogwyn – ac mae llawer ohono wedi'i ddynodi oherwydd ei werth cadwraeth natur e.e. SDdGA Clegir Mawr a SDdGA/ACA Bae Cemlyn.

Mae llwybr arfordirol yn darparu mynediad y rhan fwyaf o'r ffordd gan roi cyfres o olygfeydd sy'n newid yn barhaus. Mae llawer o'r ardal yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn arbennig o gwmpas Trwyn y Gader. Er gwaethaf natur dawel, er agored, yr ardal, mae llawer o dystiolaeth o weithgareddau dyn yn cynnwys chwarieli, gweithfeydd brics ac odynau calch. Ym Mhorthwen, mae'r gwaith brics yn nodwedd amlwg o'r gorffennol er ei fod yn dangos arwyddion erbyn hyn ei fod yn dechrau mynd â'i ben iddo. Efallai mai'r dystiolaeth amlycaf o weithgareddau dyn yw'r atomfa yn yr Wylfa i'r gorllewin o Gemaes. Croesgyfeirier ag Unedau Morweddol Rhanbarthol 7 ac 8.

## Materion Allweddol

### Tirweddau Arfordirol

Mae'r ardal yn cynnwys amryw o glogwyni a childraethau. Dylai unrhyw gynigion datblygu neu reoli:-

- Ystyried unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr ystod o fathau o gynefinoedd.
- O gofio perthynas yr ardal â'r AHNE, rhaid i unrhyw gynigion ystyried yr effaith ar argraffiadau pobl o gymeriad ac ansawdd yr arfordir.
- Gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr allweddol, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Rhoi sylw i Gynllun Rheoli'r AHNE.

### Rheoli Cynefinoedd

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd geisio:-

- Cynnal cynefinoedd arbennig, o ansawdd uchel – ymylon arfordirol, gwernydd, ffeniau.
- Datblygu a gwella'r cynefin presennol ac adlewyrchu targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

### Aneddiadau

Er mai ychydig o aneddiadau sydd yn yr Ardal Cymeriad Tirwedd, mae'n bwysig fod unrhyw gynigion datblygu:-

- O ffurf a chymeriad sy'n adlewyrchu pob anheddiad.
- Yn cael eu hystyried ar sail effeithiau cronus ar y dirwedd ehangach.
- Yn integreiddio'r datblygiad gan ddefnyddio tiffurf, patrymau llystyfiant ac ati.
- Nad ydynt yn pennu atebion safonol.



- Yn rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Cynllunio Atodol Ardal Gadwraeth Bae Cemaes.

Landmap Aspect Area Matrix - LCA 4 North-West Coast												
Aspect Area	UID	AreaName	1	2	3	4	5	6	7	8	9	Overall Evaluation
Geological Landscapes	YNSMNG004	Llaneilian-Bodgadfa	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNG005	Amlwch	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNG006	Dinas Gynfor	M	M	H	M						High
	YNSMNG097	Cemaes-Amlwch coast	O	O	O	O						Outstanding
	YNSMNG002	Llanfechel	H	M	H	H						High
	YNSMNG013	Ty-hen	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNG008	Cemlyn	H	M	H	M						High
	YNSMNG007	Cemaes	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNG011	Mynydd y Garn	M	M	M	M						High
	YNSMNG014	Penrhyn	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNG095	Porth Delysn-Porth Swlan coast	H	M	H	H						High
	YNSMNG096	Carmel Head	O	O	O	O						Outstanding
	YNSMNG108	Henborth	H	H	H	H						Outstanding
Landscape Habitats	YNSMNL006	Farmland - West Anglesey	L	L	M	U	M	U	L	M		Moderate
	YNSMNL030	Mynydd Y Garn	M	M	M	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNL031	Farmland - N. Anglesey	L	L	M	U	L	U	L	M		Low
	YNSMNL036	Plantation E. of Llyn-Y-Fydlyn	L	L	M	U	M	L	L	L		Low
	YNSMNL037	Bryn-rhwydd	M	M	U	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNL038	Trwyn y Crwyn to Carmel Head	H	H	L	U	M	H	H	M		High
	YNSMNL039	Ysgubon Gader & Pant-yr-Eglwys	M	M	U	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNL040	Acid Grassland at Carmel Head	U	M	U	U	M	M	M	U		Moderate
	YNSMNL042	Bracken - Llanleiana Head to Porth Wen	M	U	U	U	U	M	M	M		Moderate
	YNSMNL043	N.E. of Cemaes	M	U	U	U	U	U	M	M		Moderate
	YNSMNL050	Wylfa Power Station and surrounds	U	M	M	U	U	L	L	M		Low
	YNSMNL066	Coast - E. & W. of Cemlyn Bay	H	H	L	U	H	H	H	H		High
	YNSMNL076	Coast Porth Penrhyn Mawr to Church Bay	H	H	L	U	H	H	M	M		High
	YNSMNL078	Amlwch	L	L	M	U	U	L	L	M		Low
	YNSMNL080	Cemlyn Bay	O	O	L	U	O	M	O	O		Outstanding
	YNSMNL081	Heath N. of Church Bay	M	H	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNL083	Coast - Amlwch to Porth Wen	H	H	L	U	H	H	M	M		Moderate
	YNSMNL096	Farmland - N.W. Anglesey	L	L	M	U	L	U	L	M		Low
	YNSMNL118	Coast - Wylfa - Hell's Mouth	H	H	L	U	H	H	H	H		High
YNSMNL119	Coast - Porth Penrhyn Mawr - Porth Wen	H	H	L	U	H	H	M	M		Moderate	
Visual & Sensory	YNSMNV002	Mynydd y Garn	H	O	H	H						High
	YNSMNV008	North-west drumlins	M	H	M	L						Moderate
	YNSMNV011	North coast hinterland	H	M	H	M						Moderate
	YNSMNV034	Northwest coast	H	H	M	M						High
	YNSMNV035	North coast	H	H	H	M						High
	YNSMNV036	Cemlyn	H	H	O	O						Outstanding
	YNSMNV060	Amlwch	L	L	H	M						Low
	YNSMNV068	Cemaes	M	L	M	M						Moderate
	YNSMNV086	Wylfa power station	L	L	H	H						Low
Historic Landscapes	YNSMNL016	Fieldscape, central eastern Mon	O	O	M	O	H					Outstanding
	YNSMNL050	Amlwch/Parys Mountain	O	O	M	O	O					Outstanding
	YNSMNL053	North coast, Mon	O	O	H	H	H					High
	YNSMNL054	Cemais	H	H	H	O	H					High
	YNSMNL055	Wylfa	O	O	H	H	H					Outstanding
	YNSMNL056	Cemlyn coastal strip	H	M	H	M	M					Moderate
	YNSMNL057	Fieldscape, north-west Mon	H	H	H	M	M					High
	YNSMNL059	Mynydd y Garn	H	H	H	H	U					High
YNSMNL071	Bull Bay area	M	M	M	M	M					Moderate	
Cultural Landscapes	YNSMNC010	Wylfa Nuclear Power Station	H	L	M	H	H	M	H	L	L	Outstanding
	YNSMNC019	Northern Coast	H	H	H	U	H	H	H	M	M	Outstanding
	YNSMNC026	North east coast	H	H	O	U	O	H	H	H	H	Outstanding
	YNSMNC028	Cemaes	H	H	M	U	H	H	M	M	M	High
	YNSMNC033	Central Anglesey	U	H	H	U	H	H	H	H	H	High

**ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 5: GOGLEDD-ORLLEWIN YNYS MÔN**







Melin Llynonn a Mynydd Mechell



Mynydd Mechel O Fynydd y Garn



## Disgrifiad

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd newydd hon yn cynnwys elfennau mewndirol Ardal Cymeriad Tirwedd 2 a ddiffinnir yn astudiaeth LANDMAP 1999. Mae'n cwmpasu gogledd-orllewin yr ynys o Amlwch i lawr at goridor yr A5/A55 rhwng y Fali a Chaergeiliog. Nodwedd allweddol ei chymeriad yw'r maes drymlinoedd eang. Arweiniodd hyn at y disgrifiad clasurol o'r dirwedd fel "basged o wyau". Mae hyd a lled y dyddodyn hwn yn bwysig yng nghyd-destun Cymru. Mae'r bryncynnau yn rhedeg o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain ac yn ffinio'n agos ag Ardal Cymeriad Tirwedd 4 ar yr arfordir. Mewn mannau maent hyd yn oed yn rhedeg yr holl ffordd i lawr at ymyl yr arfordir. Ffurfiwyd y drymlinoedd wrth i glog-glai gael ei ddyddodi ar ôl i'r oes iâ ddiwethaf ymgilio. Oddi tanynt ceir daeareg solet o hen greigiau yn amrywio o greigiau cyn-Gambriaidd i rai Ordoficaidd mewn oedran. Am yn ail â'r tiffurf hwn mae nifer o nodweddion creigiog caled megis Mynydd y Garn a Mynydd Mechell.

Nodweddir y rhan fwyaf o'r dirwedd gan laswelltir wedi'i wella, yn enwedig ar y maes drymlinoedd. Fodd bynnag, mae nifer o laswelltiroedd corsiog ymysg y drymlinoedd ynghyd ag ardaloedd bach gwasgaredig o brysg. Mae yma hefyd ardaloedd helaeth o frigiadau creigiog gwasgaredig sy'n gysylltiedig â dyddodion cwartsit Carreglefn. Yma ceir gweundir grugaidd sych a glaswelltiroedd asidig, gydag ardaloedd o dir isel corsiog am yn ail â nhw. Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd hefyd yn cynnwys y grynofa ddŵr fwyaf ar yr ynys, Llyn Alaw, sy'n gronfa ddŵr a hefyd yn bwysig i adar bridio ac adar dŵr sy'n gaeafu yma. Mae cysylltiad rhwng Afon Alaw a'r Mabinogi, chwedlau sy'n ganolog i ddiwylliant Cymru.

Coridor yr A5 yw ymyl orllewinol yr Ardal Cymeriad Tirwedd, ac mae'r ffordd hon yn elfen allweddol yn natblygiad hanesyddol a diwylliannol yr ynys. Adeiladwyd y ffordd gan Telford, mewn ymateb i'r angen i wella'r cysylltiadau ag Iwerddon, a thrwy wneud hynny cadarnhawyd datblygiad Caergybi fel porthladd o bwys. Nodwedd arall, amlycach, o'r dirwedd yw datblygu ffermydd gwynt, yn enwedig i'r gogledd o Lyn Alaw. Yn eironig, bu melinau gwynt yn nodwedd o Ynys Môn ers amser maith ac mae'r gydberthynas hon ag ynni gwynt yn parhau.

## Materion Allweddol

### Tirweddau Arfordirol

Yn ffinio ag Ardal Cymeriad Tirwedd 4, dylai unrhyw gynigion datblygu neu reoli:-

- Roi sylw i Gynllun Rheoli'r AHNE.

### Ymylon Aneddiadau

Dylai unrhyw gynigion datblygu neu gynigion rheoli tirwedd adlewyrchu:-

- Patrwm datblygu'r ardal.
- Ceisio defnyddio'r tiffurf a phatrymau llystyfiant i liniaru effeithiau.
- Sicrhau bod y raddfa, y ffurf a'r defnyddiau yn parchu'r traddodiad brodorol.
- Defnyddio a chadw patrymau ffiniau caeau lleol – cloddiau, ffensys, gwrychoedd
- Rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Cynllunio Atodol Ardal Gadwraeth Bae Cemaes ac Ardal Gadwraeth Llanfechell

### Rheoli Cynefinoedd

Er ei bod yn ardal sy'n cael ei ffermio'n weddol ddwys, ceir amryw o gynefinoedd lled-naturiol ar hyd a lled yr Ardal Cymeriad Tirwedd. Mae'n cynnwys Llyn Alaw sy'n adnodd bioamrywiaeth pwysig. Dylai unrhyw gynigion datblygu neu reoli:-

- Ddarparu ar gyfer rheoli nodweddion cynefinoedd lled-naturiol, yn cynnwys dŵr agored.
- Datblygu a gwella'r rhwydwaith safleoedd ac adlewyrchu targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

### Tirweddau Ynni


Nodweddir yr ardal gan nifer o ffermydd gwynt. Wrth ystyried unrhyw ddatblygiadau pellach dylid rhoi pwyslais arbennig ar yr effeithiau cronus ar gymeriad y dirwedd.

Landmap Aspect Area Matrix - LCA 5 North-West Anglesey												
Aspect Area	UID	AreaName	1	2	3	4	5	6	7	8	9	Overall Evaluation
Geological Landscapes	YNSMNGLO02	Llanfechel	H	M	H	H						High
	YNSMNGLO04	Llaneilian-Bodgadfa	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNGLO05	Amlwch	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO06	Dinas Gynfor	M	M	H	M						High
	YNSMNGLO07	Cemaes	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO08	Cemlyn	H	M	H	M						High
	YNSMNGLO09	Mynydd Mechel	M	L	M	L						Moderate
	YNSMNGLO10	Afon Wygyr	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNGLO11	Mynydd y Garn	M	M	M	M						High
	YNSMNGLO12	Tan-ian	M	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO13	Ty-hen	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO14	Penrhyn	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNGLO15	Llanrhyddiad	L	L	M	L						Moderate
	YNSMNGLO16	Rhosgoch	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO17	Gwredog	L	L	L	M						Moderate
	YNSMNGLO18	Afon Alaw	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO19	Bodedern	M	M	M	M						Moderate
	YNSMNGLO20	Llanerchymedd	H	H	H	H						High
	YNSMNGLO66	Tywyn Trwan Common	L	L	L	L						Low
	YNSMNGLO71	Llyn Penrhyn-Llyn Trafwll	M	L	M	L						Moderate
	YNSMNGLO72	Llanfairyneubwll	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO73	Bryn-y-fryd	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO74	Cleifiog Isaf	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO75	Valley	L	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO76	Alaw estuary	L	L	M	M						Moderate
	YNSMNGLO90	Four Mile Bridge	M	L	L	L						Moderate
	YNSMNGLO94	Traeth y Gribin	H	M	H	M						High
	YNSMNGLO95	Porth Delysn-Porth Swlan coast	H	M	H	H						High
	YNSMNGLO96	Carmel Head	O	O	O	O						Outstanding
	YNSMNGLO97	Cemaes-Amlwch coast	O	O	O	O						Outstanding
YNSMNGLO113	Llyn Llygeirian	M	L	M	L						Moderate	
YNSMNGLO114	Bodnolwyn	M	M	M	M						Moderate	
Landscape Habitats	YNSMNLH006	Farmland - West Anglesey	L	L	M	U	M	U	L	M		Moderate
	YNSMNLH008	Llyn Alaw	H	H	U	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH016	Valley Lakes	H	H	U	U	H	M	O	H		Outstanding
	YNSMNLH019	Mynydd Mechel	M	H	M	U	M	M	H	H		High
	YNSMNLH024	RAF Valley Airfields	H	H	M	U	U	H	H	M		Moderate
	YNSMNLH028	Cors-Y-Bol	H	H	L	U	H	L	H	U		Moderate
	YNSMNLH029	Afon Alaw Saltmarsh	H	H	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH030	Mynydd Y Garn	M	M	M	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH031	Farmland - N. Anglesey	L	L	M	U	L	U	L	M		Low
	YNSMNLH037	Bryn-rhwydd	M	M	U	U	M	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH041	Cae Gwyn	H	H	L	U	H	L	H	M		High
	YNSMNLH042	Bracken - Llanleiana Head to Porth Wen	M	U	U	U	U	M	M	M		Moderate
	YNSMNLH043	N.E. of Cemaes	M	U	U	U	U	U	M	M		Moderate
	YNSMNLH050	Wylfa Power Station and surrounds	U	M	M	U	U	L	L	M		Low
	YNSMNLH063	Inland Sea	H	O	L	U	H	M	H	H		High
	YNSMNLH066	Coast - E. & W. of Cemlyn Bay	H	H	L	U	H	H	H	H		High
	YNSMNLH076	Coast Porth Penrhyn Mawr to Church Bay	H	H	L	U	H	H	M	M		High
	YNSMNLH080	Cemlyn Bay	O	O	L	U	O	M	O	O		Outstanding
	YNSMNLH081	Heath N. of Church Bay	M	H	L	U	H	M	H	H		High
